DYDD ARBENNIG

Diwrnod Agored i Athrawon

Yr oedd y dydd lau olaf o fis Mawrth yn ddiwrnod arbennig yn hanes Ysgol Gynradd Penrhyncoch.

Dyma'r diwrnod yr agorwyd drysau'r adeilad yn lled y pen ac y croesawyd yno athrawon o ysgolion cylchoedd Aberystwyth a Thregaron.

Yn ystod y dydd gwelwyd drosgant o athrawon yn symud o ddosbarth i ddosbarth ac yn talu sylw i'r gwaith a wnaethpwyd yn y gwahanol bynciau'n ystod y tymor a'r gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd i gyflwyno'r gwaith hwnnw. Dewisodd pob dosbarth thema arbennig ac yn ôl y gwybodusion roedd y gwaith yn llawn dychymyg, yn hynod liwgar ac wedi ei osod ar seiliau cedyrn. Wrth fynd i mewn i'r ysgol sylweddolwyd bod pob modfedd o'r adeilad wedi ei ddefnyddio i gyfleu gwybodaeth.

Drwy'r tymor cafodd y plant gyfle i wneud tasgau amrywiol ac nid anghofiwyd y gwaith llafar chwaith. Trwy gyfrwng video, cafodd yr ymwelwyr gyfle i weld peth o'r gwaith ymarferol a llafar a wnaethpwyd,

Yr oedd trefnyddion y sir yn bresennol drwy'r dydd a diolchodd pob un ohonynt i'r athrawon a'r plant am lafurio mor ddygn yn ystod y misoedd a aeth heibio. Cafwyd gair o werthfawrogiad hefyd gan Mr Gerald Morgan a Mr Alun Jones o ysgol Penweddig. Yr oedd llawer o fyfyrwyr o Goleg y Brifysgol, Aberystwyth yn bresennol hefyd a'r bore canlynol ar gais y Gyfadran Addysg ymwelodd nifer o athrawon o wahanol wledydd â'r ysgol. Pobl a oedd yn y coleg yn gwneud gradd uwch oedd y rhain. Cafwyd y cyfle i groesawu rhai o wlad Belg, yr Almaen, Gibraltar, Nigeria, Algeria a Malaya. Yr oedd y plant wrth eu bodd yn sgwrsio a hwy a'r ymwelwyr hwythau'n gwerthfawrogi'r cyfle o gael ymweld â'r ysgol ac yn llawen o weld y berthynas hyfryd oedd rhwng yr athrawon a'r plant, a'r ysbryd ardderchog a oedd yn bodoli yno.

Yn hwyrach yn y dydd gwahoddwyd y rhieni i'r ysgol a chawsant hwythau'r cyfle i fynd o amgylch y dosbarthiadau.

Ar ddiwedd y prynhawn sylweddolai pawb bod y dydd agored wedi bod yn llwyddiant eithriadol a theimlai pawb bod diolch yn ddyledus i'r Awdurdod am ei drefnu yn ogystal ag i'r Prifathro, y Staff a'r plant am eu croeso a'r ddwy oruchwylwraig am drefnu lluniaeth yn ystod y bore.

Ebrill 1982